# Partneriaeth ar gyfer Twf:
# Adolygiad interim o flaenoriaethau 2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynllun Gweithredu ar yr Economi Cyhoeddwyd Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Cymru ar gyfer 2013-2020 yn 2012. Yn 2016, adolygwyd y strategaeth, ac, yng ngoleuni hynny, cyhoeddwyd blaenoriaethau wedi'u diweddaru ar gyfer twristiaeth ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar ddiwedd 2018 adolygwyd ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a ddiweddarwyd yn 2016. Ar yr un pryd, edrychwyd hefyd ar y camau nesaf ar gyfer y cyfnod i 2020. Sylwch fod y gwaith hwn wedi'i wneud yn 2018, cyn dechrau gweithio ar y strategaeth newydd ar gyfer 2020 ymlaen.

## HYRWYDDO'R BRAND

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Proffil Cymru (3.4.1)** "Strategaeth i Gymru, nid Croeso Cymru yn unig" | Arweinyddiaeth brand gadarn, yn llywio gwelliannau o ran marchnata, polisi a chynnyrch | Yn 2016, aethom ati i lansio brand unedig newydd i hyrwyddo Cymru fel lle i fuddsoddi, gweithio, byw, astudio ac ymweld ag ef, sydd wedi dyblu effaith economaidd gwaith marchnata Croeso Cymru, oddi ar 2013, i £350 miliwn y flwyddyn. Yn ogystal â gwedd a theimlad newydd, mae'r brand yn seiliedig ar werthoedd craidd brand Cymru a naratif clir. Mae elfennau eraill o waith y brand wedi cynnwys y blynyddoedd thematig newydd (gweler isod). Ers hynny, mae'r brand wedi cael ei fabwysiadu'n helaeth. Er enghraifft, mae cynllun sicrwydd ansawdd pwysig, newydd ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod wedi cael ei sefydlu ar sail gwerthoedd brand Cymru, ac mae Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd ag egwyddorion y brand. Mae'r brand newydd wedi cael ei groesawu gan randdeiliaid, wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol (gweler isod), ac wedi cael effaith sylweddol. | Rydym yn parhau i feithrin y brand trwy ei estyn i sectorau a meysydd newydd, a hynny er mwyn sicrhau bod negeseuon Cymru yn cael eu hintegreiddio'n llwyr, a bod mwy o effaith ar y farchnad, gan gryfhau effaith y brand mewn marchnadoedd targed, gyda phwyslais ar farchnata digidol yn benodol, yn ogystal ag ymgorffori gweledigaethau'r brand yn rhan o raglenni polisi a datblygu y dyfodol. Enghraifft o hyn fyddai gwneud rhagor o waith i wella'r 'ymdeimlad o le' a gynigir gan fusnesau twristiaeth ledled Cymru. Rydym yn rhoi mesurau gwerthuso brand cryfach ar waith. | G |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Canolbwyntio ar ddatblygu mathau cystadleuol o wyliau, gan ddechrau gydag antur | Yn dilyn buddsoddiad mewn amrywiaeth o gynnyrch antur, er enghraifft Surf Snowdonia, aethom ati i lansio cyfres o flynyddoedd thematig (gweler isod), gan ddechrau gyda'r Flwyddyn Antur yn 2016. Fel y nodwyd, mae'r ymgyrchoedd hyn wedi cyfrannu at wariant ychwanegol gwerth £350 miliwn y flwyddyn, ac wedi cyflwyno golwg gyfoes, rymus a chyson ar ein gwlad i ddefnyddwyr, a hynny mewn perthynas â'n hantur, ein diwylliant a'n tirweddau. www.croeso.cymru | Rydym yn gwneud rhagor o waith i helpu busnesau twristiaeth i wella ansawdd y profiad y maent yn ei gynnig – gyda ffocws ar antur, diwylliant a thirwedd – yn ogystal â mewn meysydd eraill, er enghraifft bwyd a diod. Mae Croeso Cymru yn buddsoddi mewn systemau dadansoddi data i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei arwain gan ddirnadaeth. Yr ydym yn gweithio gyda chyrchfannau/rhanbarthau i fireinio eu cynigion gwyliau cystadleuol ac i dyfu brandiau is-genedlaethol cryf, gan adlewyrchu egwyddorion y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (gweler isod). | G |
| | Cynnyrch ac atyniadau eiconig, gan gynnwys gwneud rhagor o waith i fanteisio i'r eithaf ar lwybrau gyrru/trafnidiaeth allweddol i Gymru, ac oddi fewn i'r wlad | Cyflwynwyd "Ffordd Cymru" yn 2017, sef llwybr twristiaeth amlfoddol newydd, sy'n hyrwyddo gwyliau trwy fathau gwahanol o drafnidiaeth, gan gynnwys cerdded, beicio, mynd ar drên, gyrru ac eraill. Mae'r cynnyrch masnach teithio newydd yn deillio o raglenni teithio ysbrydoledig. | Mae Ffordd Cymru yn brosiect deng mlynedd o hyd sy'n anelu at ddenu cynnyrch ac atyniadau eiconig newydd i leoedd ar hyd y llwybrau hyn. Bydd gwella'r ddarpariaeth o ran cynnyrch yn broses barhaus ac yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru. | G |
| | Cyrchfannau allweddol – adfywio is-strwythur y gwaith o farchnata cyrchfannau | Mae ein prosiect newydd, sef Porth Digidol i Gymru, yn fenter ddigidol ar gyfer cwsmeriaid. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n fwy ar arddangos cynnwys marchnata cyrchfannau (gweler isod). | Rydym yn ystyried y modd y gallwn weithio gyda phartneriaid i fireinio cynigion ar lefel cyrchfannau, gan ganolbwyntio ar adrodd straeon rhanbarthol a straeon sy'n seiliedig ar gyrchfannau, a hynny trwy gyfrwng strwythurau llunio cynnwys newydd. | M |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Profiadau nodedig trwy raglen adfywio ymdeimlad o le | Mae Ymdeimlad o Le yn elfen sydd wrth wraidd brand newydd Cymru. Mae'n gynhenid Gymreig ond yn fyd-eang ei olygon. Rydym wedi llunio canllaw Ymdeimlad o Le ynghyd ag astudiaethau achos fideo, er mwyn annog y diwydiant i ddathlu ymdeimlad newydd o le fel pwynt gwerthu unigryw (USP) ar gyfer ymwelwyr. | Rydym am helpu'r diwydiant i fynd ati'n well i ymgorffori ymdeimlad cadarnach o le. Bydd y Ganolfan Frandiau newydd, sy'n targedu'r diwydiant, yn galluogi'r diwydiant i sicrhau bod gan yr arlwy "ymdeimlad cadarn o le", yn ogystal â safonau ansawdd rhyngwladol. | M |
| | Brand Cymru integredig yn seiliedig ar waith cyflawni digidol a chyda chwmpas rhyngwladol | Rydym yn defnyddio cynnwys a gwaith marchnata ar lefel Cymru gyfan i ychwanegu at ymgyrchoedd dan arweiniad y sector, sydd wedi'u hanelu, yn benodol, at farchnadoedd "newydd". Er enghraifft, mae'r brand wedi cael ei ddefnyddio hefyd i recriwtio meddygon teulu yn llwyddiannus i Gymru. Mae cyflawni digidol wedi bod yn ganolog i'r brand newydd (gweler Digidol yn Gyntaf isod). | Gweler uchod. Mae mentrau newydd yn cynnwys canolbwyntio ar Ddydd Gŵyl Dewi er mwyn hyrwyddo Cymru ar lefel ryngwladol. | G |
| | Ymgyrchoedd arobryn uchel eu proffil | Mae brand Cymru wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys gwobr y Gorau yn y Sioe a'r wobr Aur yn y Gwobrau Dylunio Ewropeaidd. Cafodd ei enwebu gan gymheiriaid i ymddangos yn arddangosfa Dyluniadau'r Flwyddyn Beazley, a hynny yn yr Amgueddfa Ddylunio yn Llundain, ac mae ein hymgyrchoedd marchnata wedi ennill sawl gwobr gan y Sefydliad Marchnata Siartredig, ynghyd â gwobrau marchnata digidol. | Rydym yn symud oddi wrth ymgyrchoedd ar y teledu at ddulliau traws-gyfrwng, ac oddi wrth gyfnodau "ymgyrchu" i ddangosiadau sydd i'w gweld bob amser, a hynny er mwyn parhau i gyflawni ymgyrchoedd uchel eu proffil sy'n effeithiol ac yn cael effaith go iawn. | G |
| | Gweithio gyda nifer bach o bartneriaid brand effaith uchel i Gymru | Mae ansawdd brand Cymru wedi helpu i sicrhau partneriaethau â sefydliadau tebyg i Aston Martin, Red Bull a Qatar Airways. Mae'r rhain yn rhan o ecosystem lawer ehangach o berthnasoedd, sy'n cynnwys partneriaid digwyddiadau yng Nghymru, er enghraifft Gŵyl y Gelli a theitlau cyfryngau yn y farchnad, er enghraifft *Brigitte* yn yr Almaen. | Rydym yn gweithio i sefydlu llai o bartneriaethau mwy a gwell er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a sicrhau gwell cyrhaeddiad ac effaith o ran ein gwaith marchnata. | G |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Croesawu cyfleoedd digidol | Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn hanfodol i'r brand. Erbyn hyn, mae ein sianeli cymdeithasol yn gyrru dros £150 miliwn o wariant ychwanegol i'r economi bob blwyddyn, a thyfodd y nifer a oedd yn dilyn ein cyfryngau cymdeithasol i ychydig dros filiwn yn 2017, ac yna i 1.4 miliwn yn 2018. Mae nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r cynnwys wedi dyblu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Croeso Cymru newydd lansio cyfrif ar Pinterest, a lwyddodd i gyrraedd oddeutu dwy filiwn o wylwyr unigryw yn ystod 2018. Caiff Croeso Cymru ei ystyried yn ganolfan o ragoriaeth ddigidol yn Llywodraeth Cymru. | Rydym yn buddsoddi mewn sianeli brand cymdeithasol eraill ar gyfer ein brand, er enghraifft wales.com ar Twitter ac YouTube. Mae cael pobl i ymgysylltu â'n cynnwys yn datblygu'n brif darged i ni – ac, erbyn 2020, ein nod yw rhoi hwb sylweddol i welededd digidol Cymru trwy wella'r gwaith o lunio a rhannu cynnwys, yn ogystal â gwerthuso effaith economaidd y gweithgarwch hwn. | G |
| | Y Blynyddoedd Thematig | Yn dilyn y Flwyddyn Antur yn 2016, cynhaliwyd Blwyddyn y Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018. Croesawyd yr ymgyrchoedd hyn gan y diwydiant twristiaeth fel canolbwynt ar gyfer datblygu cynnyrch a manteisio ar gryfderau allweddol Cymru fel cyrchfan dwristiaeth. Mae Cymru yn dechrau torri trwodd fel cyrchfan antur go iawn. Mae'r dull hwn wedi creu perthynas gryfach rhwng timau marchnata a datblygu Croeso Cymru, ac mae'n gwella'r hyn a gynigir ledled y wlad. | Mae Blwyddyn Darganfod 2019 ar waith ac mae Blwyddyn Awyr Agored 2020 newydd gael ei lansio. Er mwyn osgoi gwanhau llwyddiant y themâu hyd yma, bydd y themâu newydd yn atgyfnerthu'r themâu blaenorol, ynghyd â'r tri philer, sef antur, diwylliant a thirweddau. | G |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Dull marchnata sy'n seiliedig ar gynnyrch (gweler y buddsoddiad cynnyrch isod) | Mae ein gwaith marchnata wedi canolbwyntio ar gynnyrch y gellir ei archebu ymlaen llaw er mwyn annog defnyddwyr i ymweld â Chymru. Mae mentrau allweddol, er enghraifft Ffordd Cymru, yn fentrau sy'n seiliedig ar gynnyrch, ac sy'n darparu rhaglenni ysbrydoledig i ddefnyddwyr a'r fasnach deithio. Mae grantiau cymorth y diwydiant (gweler isod) hefyd wedi galluogi partneriaid y diwydiant i fuddsoddi mewn mentrau marchnata cynnyrch, er enghraifft partneriaeth Beicio Mynydd Cymru, ymgyrch farchnata Canolbarth Cymru Go Iawn ac Ysbryd y Cymry. | Rydym yn parhau i ganolbwyntio buddsoddiad ar gynnyrch newydd uchel ei broffil sy'n atgyfnerthu'r blynyddoedd thematig a'r tri philer. Byddwn yn gwneud rhagor o waith i fanteisio ar ddirnadaeth er mwyn ymgysylltu â'r diwydiant, a hynny er mwyn datblygu cynnyrch newydd sy'n seiliedig ar y farchnad, yn ogystal â'i gyflwyno i farchnadoedd mewn modd mwy effeithiol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn defnyddio Ffordd Cymru fel bachyn i gydweithio â chymunedau a busnesau wrth ddatblygu cynnyrch, yn ogystal â galluogi'r partneriaid hyn i hyrwyddo eu cynnyrch mewn ffyrdd newydd, a hynny, yn benodol, i farchnadoedd rhyngwladol. | G |
| **Denu marchna-doedd sydd â'r potensial i dyfu (3.4.2)** | Cynnal ein cyfran o'r farchnad gwyliau domestig a rhoi hwb i wariant yn economi Cymru | Yn dilyn tair blynedd o dwf cadarn rhwng 2013 a 2016, gostyngodd nifer y teithiau a'r gwariant cyffredinol yng Nghymru gan breswylwyr y Deyrnas Unedig yn ystod 2017; fodd bynnag, mae canlyniadau interim 2018 yn awgrymu bod y gwariant yn tyfu unwaith eto.<br><br>Cynyddodd swm y gwariant ar ymweliadau dydd twristiaeth â Chymru i £4.3 biliwn, sef y lefel uchaf er 2012. | Ein blaenoriaeth fydd parhau i gynnal ymgyrchoedd uchel eu heffaith, sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd newydd, gwerthfawr yn y farchnad graidd, aeddfed, ddomestig (Llundain a De-ddwyrain Lloegr, a chanolfannau trefol allweddol eraill). Blaenoriaeth arall fydd gwneud gwaith ymgysylltu yng Nghymru er mwyn annog rhagor o bobl sy'n byw yn y wlad i fynd ar wyliau lleol. | M |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Ailganolbwyntio'r gweithgarwch marchnata ar farchnadoedd newydd, gwerthfawr, er enghraifft mordeithiau a digwyddiadau busnes | Mae datblygu'r sector fordeithio yn parhau'n flaenoriaeth, ac mae yna gynllun marchnata bach a phwrpasol ar waith ar gyfer hyn, yn ogystal â dyraniad adnoddau.<br>Nod y dull pwrpasol newydd, sef Digwyddiadau Busnes, yw denu digwyddiadau i Gymru sy'n alinio â sectorau allweddol y wlad, y rhanbarthau twf a dargedir ar gyfer mewnfuddsoddiad, yn ogystal â datblygiad economaidd, a rhagoriaeth academaidd, wyddonol neu feddygol. | Bydd y gallu i gynnal ein sefyllfa yn y farchnad fordeithio yn dibynnu ar ddatblygiad y seilwaith, ynghyd â gweithgarwch marchnata parhaus. O ran digwyddiadau busnes, mae'r ffocws ar ddatblygu model cyflawni cynaliadwy. Byddwn yn parhau i adolygu cyfleoedd marchnata gwerthfawr eraill, er enghraifft golff. | G |
| | Matrics y Farchnad i nodi marchnadoedd blaenoriaeth | Mae'r farchnad ddomestig graidd wedi parhau'n flaenoriaeth – gan dargedu cynulleidfaoedd newydd, gwerthfawr sydd â'r rhagolygon twf gorau ar gyfer Cymru. Mewn mannau eraill, mae'r ffocws ar diriogaethau targed, gan gynnwys Iwerddon, yr Almaen a'r Unol Daleithiau. Roedd y busnes a gyfeiriwyd i Gymru gan y 100 o brif weithredwyr wedi tyfu 24% yn ystod 2017– gan roi addewid o dwf hirdymor mewn marchnadoedd rhyngwladol. Rydym hefyd wedi ceisio cydweithio â VisitBritain ymhob un o'r marchnadoedd hyn. | Rydym yn adolygu'r modd gorau o ddefnyddio adnoddau yn sgil Brexit, ond, ar hyn o bryd, mae Iwerddon, yr Almaen a'r Unol Daleithiau yn parhau'n bwysig. Rydym yn rhoi rhagor o bwyslais ar bartneriaethau digidol traws-farchnad ac ar aildargedu marchnadoedd sydd â buddiant yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys trwy gyfrwng yr asiantaethau teithio ar-lein. | G |
| **Dod yn 'ddigidol yn gyntaf' (3.4.3)** | Porth Digidol gan gynnwys adnewyddu croesocymru.com | Mae Croeso Cymru yn arwain y prosiect Porth Digidol traws-lywodraethol i ddod â phedair gwefan ryngwladol ynghyd, sef wales.com, croesocymru.com, Porth Study in Wales a Masnach a Buddsoddi Cymru (Saesneg yn unig), a hynny o dan un wefan, sef wales.com/cy. | Bydd y Porth Digidol newydd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn ystod 2019. Ar ôl ei lansio, y flaenoriaeth fydd ehangu'r effaith a rhannu'r cynnwys trwy rwydweithiau cymdeithasol a phartneriaid eraill. | M |
| | Dull traws-gyfrwng ar gyfer cyfathrebu, y ganolfan gynnwys | Mae prosiect y Porth Digidol yn seiliedig ar strategaeth gynnwys uchelgeisiol newydd, wedi'i hintegreiddio'n llawn ledled y sianeli digidol a'r cyfryngau cymdeithasol, a hynny yn rhan o'n hymgais i symud oddi wrth ymgyrchoedd ar gyfer y teledu yn unig at ymgyrchoedd amlgyfrwng sy'n seiliedig ar gynnwys. | Mae'r camau nesaf yn cynnwys ymgorffori diwylliant dan arweiniad digidol/cynnwys wrth wraidd yr adran.<br>Rydym yn symud at ymagwedd COPE (Creu Unwaith, Cyhoeddi Ymhobman) er mwyn sicrhau bod ein straeon yn cyfrannu at well effeithlonrwydd ac effaith. | M |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Ecosystem gynnwys i Gymru, sy'n galluogi straeon o bob cwr o'r wlad i gael eu casglu, eu hail-becynnu a'u cyhoeddi ledled amrywiaeth eang o safleoedd, a hynny mewn modd cyflym | Gweler uchod. Mae Croeso Cymru yn casglu, yn llunio ac yn cyhoeddi cynnwys o safon uchel, a hynny o bob cwr o Gymru, ond, ar hyn o bryd, mae'n tueddu i arwain o'r canol. Rydym hefyd yn cefnogi partneriaid i lunio cynnwys sy'n seiliedig ar frand, a hynny trwy amrywiaeth o raglenni grant. | Erbyn 2020, byddwn yn datblygu cynigion cyrchfannau/rhanbarthol i danategu'r brand, yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer straeon ledled Cymru. Byddwn yn buddsoddi mewn golygyddion/ cydgysylltwyr cynnwys rhanbarthol i helpu i ddod o hyd i straeon rhanbarthol, ynghyd â'u hadrodd a'u rhannu trwy strwythur y Porth – gan drosglwyddo cynnwys lleol i amrywiaeth eang o safleoedd mewn modd cyflym a digidol. Byddwn hefyd yn cryfhau ein dull o gydweithio â VisitBritain o ran rhannu cynnwys trwy rwydweithiau'r awdurdod hwnnw. | M |
| | Parhau i ddatblygu ein cymunedau ar y cyfryngau cymdeithasol | Mae'r nifer sy'n ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu'n sylweddol. Mae'r dilynwyr cymdeithasol hynny yn ymgysylltu'n helaeth â'r cynnwys. Mae cynnwys cymdeithasol ein sianeli yn dylanwadu mewn modd uniongyrchol ar ymweliadau â Chymru, yn ogystal â chyfrannu at ein symiau gwariant ychwanegol blynyddol. Mae ein strategaeth wedi newid o gyfeirio traffig i'r wefan i gydnabod ein sianeli cymdeithasol fel prif sianeli yn eu hanfod – gyda Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig yn cysylltu â'n hamcanion cyffredinol a'n targedau gwariant ychwanegol. | Fel y nodwyd uchod, rydym yn parhau i ddatblygu'r lefelau o ran cyrhaeddiad ac ymgysylltu, gan fuddsoddi mewn platfformau newydd, er enghraifft Pinterest ac YouTube fel y bo'n briodol, a hynny'n seiliedig ar dueddiadau a dadansoddiad y farchnad. Ein targedau ar gyfer 2020 yw cael 10 miliwn o ymwelwyr unigol a thwf o 10% mewn gwariant sy'n gysylltiedig â'r maes digidol. | G |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Agwedd Beta Cymru – Cymru yn fainc arbrofi ar gyfer arloesedd digidol | Mae Beta Cymru yn ddull profi a dysgu sy'n rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol, yn profi syniadau, yn mesur llwyddiant ac yn gwneud y gorau o'n cynllun, a hynny trwy ddefnyddio data a dirnadaeth y gynulleidfa i gefnogi'r broses hon. Er 2016, rydym wedi treialu dulliau ymgyrchu digidol, newydd ac arloesol, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â cheisio meithrin dull ymgyrchu digidol, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o asedau creadigol nad ydym wedi'u datblygu o'r blaen. Mae Porth Digidol Cymru yn rhan o hyn, a bydd gan y platfform y byddwn yn ei roi ar waith ar gyfer 2019 yr hyblygrwydd i sicrhau arloesedd pellach. | Disgwylir y bydd pob gwefan Beta yn cael ei lansio erbyn mis Medi 2019, a bydd o leiaf un prosiect 'Beta Cymru' yn cael ei gyflawni bob blwyddyn yn rhan o ymagwedd y Porth ar gyfer 2020. | G |
| **Cynyddu gwariant a phroffidiol-deb (3.4.4)** | Datblygu digwyddiadau busnes ymhellach, gan gynnwys Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (ICC Cymru) | Gweler uchod. Mae'r tîm Digwyddiadau Busnes newydd yn cydweithio â chyd-weithwyr ym maes Busnes a Rhanbarthau i sicrhau bod y strategaeth Digwyddiadau Busnes yn cyd-fynd ag ymagwedd a chryfderau rhanbarthol Cymru mewn meysydd tebyg i Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, ac Ynni, a hynny er mwyn sicrhau manteision economaidd ar gyfer Cymru gyfan, yn ogystal â manteisio ar y momentwm a ddarperir gan ICC Cymru. Mae rhaglen integredig o sioeau masnach, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr, ymgysylltu â'r cyfryngau, ymweliadau digidol ac ymgyfarwyddo eisoes wedi arwain at gyfleoedd newydd. | Mae'r camau nesaf yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar agoriad ICC Cymru yn 2019, ynghyd â'r buddsoddiad ar gyfer Venue Cymru er mwyn sicrhau manteision ehangach ar gyfer Cymru gyfan, yn ogystal â chryfhau a chynnal y rhaglen digwyddiadau busnes ar gyfer 2020. | G |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Llywio gwerthiannau trwy weithredu dull mwy darbodus mewn perthynas â'r fasnach deithio | Rhaglen masnach deithio ragweithiol ac aml-sianel, sy'n targedu gweithredwyr teithiau domestig, rhyngwladol, ynghyd â gweithredwyr teithio i Gymru, sy'n meddu ar y potensial i ehangu'n fawr mewn perthynas â gwerthu rhagor o gynnyrch Cymru. Yn 2017, llwyddodd Croeso Cymru i ddylanwadu ar £11.2 miliwn, a hynny'n seiliedig ar fusnes go iawn gan grŵp o "100 o brif weithredwyr". Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 24% mewn busnes o £9 miliwn ar gyfer 2016. Yn 2017, cynhyrchwyd £24.6 miliwn o fusnes i Gymru, a hynny gan 488 o weithredwyr a dargedwyd gennym. Mae'r porth masnach deithio pwrpasol (Saesneg yn unig), a anelir at y Fasnach Deithio Hamdden sy'n cynnwys gweithredwyr teithio, asiantaethau teithio, gweithredwyr bysiau a chwmnïau rheoli cyrchfannau, yn darparu gwybodaeth i wella teithiau sydd eisoes yn dod i Gymru, neu i gyflwyno Cymru i raglenni am y tro cyntaf. | Mae'r maes hwn wedi trawsnewid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly mae angen i ni barhau i foderneiddio ein dull, gan roi rhagor o bwyslais ar sianeli digidol wrth i'r farchnad esblygu, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit. Bydd y Porth Digidol newydd yn darparu teithiau i ddefnyddwyr y gellir eu harchebu ymlaen llaw, ynghyd â chynnyrch y gweithredwyr teithio, rhaglen gyfoethog ysbrydoledig ac ymarferol, a chynnyrch i'r fasnach deithio. | G |
| | Gwella gwybodaeth am gynnyrch a chynnwys ar wefan croeso.cymru, a gwneud rhagor o waith i ryddhau data a chynnwys i ddarparwyr trydydd parti | Un o'r prif bileri yng ngwaith parhaus y Porth Digidol yw llunio cronfa ddata newydd ar gyfer cynnyrch twristiaeth, a fydd yn gwella pethau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddilynol. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y cynnwys o'r safon gorau posibl, a'i fod yn tanategu'r Porth ehangach â chyfoeth o ddata. | Ein prif flaenoriaeth yw'r gronfa ddata newydd ar gyfer cynnyrch. | M |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi'r diwydiant i roi hwb i refeniw** | Ysbrydoli arloesedd mewn perthynas â chynnyrch, er mwyn targedu ymwelwyr sy'n aros am gyfnod hwy | Mae'r blynyddoedd thematig wedi darparu arweinyddiaeth i'r diwydiant ym meysydd ffocws Cymru, ac mae Ffordd Cymru wedi ysbrydoli syniadau a phrosiectau newydd ledled y wlad. Mae'r mentrau hyn wedi cael eu cefnogi gan ein cymorth ar gyfer arloesi cynnyrch, er enghraifft Zip World, Hafan Epic ac Ysbryd y Cymry. Mae arfer gorau wedi cael ei rannu trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r diwydiant. Fel y nodwyd, mae nifer yr ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig sy'n aros dros nos yn cynyddu, ond mae'r gyfran o ymwelwyr o dramor, sy'n gwario rhagor o arian, yn parhau'r un fath. | Yn y dyfodol, rydym am wneud rhagor o waith i rannu arferion gorau, dirnadaethau a data â'r diwydiant er mwyn llywio arloesedd a gwelliannau mewn perthynas â chynnyrch. Byddwn hefyd yn neilltuo rhagor o adnoddau i ddosbarthu cynnyrch, a'i welededd, ynghyd â chyflwyno'r profiadau a'r cynnyrch hyn i'r farchnad. | M |
| | Annog busnesau i wella eu gwelededd digidol a'r cynnwys y maent yn ei gynnig, gan gydweithio â darparwyr byd-eang ac asiantaethau archebu, fel y bo'n briodol | Gweler uchod (strategaeth y Porth Digidol a chynnwys newydd). Rhan allweddol o hyn yw'r gronfa ddata ar gyfer cynnyrch. Rydym hefyd wedi buddsoddi er mwyn helpu partneriaid a busnesau i ddatblygu gwelededd digidol eu cynnyrch, a hynny trwy gynnal ymgyrchoedd digidol i hyrwyddo cynnyrch, er enghraifft Beicio Mynydd Cymru a Ffordd Brailsford. | Bydd y gronfa ddata newydd ar gyfer cynnyrch yn cynorthwyo gwelededd digidol cynnyrch busnes. Byddwn hefyd yn gwneud rhagor o waith i rannu dirnadaethau a chanllawiau â'r diwydiant ynghylch dosbarthu cynnyrch, a'i welededd, gyda phwyslais ar sianeli dosbarthu digidol. | M |
| | Archwilio dulliau arloesol a digidol o wella darpariaeth yr wybodaeth a gynigir mewn cyrchfannau | Rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau dehongli digidol, gan gynnwys prosiect iBeacon yng Ngheredigion ac Ap Lleoli Beacon, sy'n dwyn cynnwys a gwybodaeth ynghyd ar gyfer pob un o'r darparwyr gweithgarwch, a hynny yn rhan o'r Map Antur. Cefnogir hyn gan ymgyrch a chystadleuaeth mewn cyrchfannau, sy'n herio ymwelwyr i roi cynnig ar yr 11 antur sy'n gysylltiedig â'r ap a'r wefan. | Rydym yn gwneud rhagor o waith mewn perthynas â defnyddio arfer gorau a data sy'n darparu dirnadaeth er mwyn ysbrydoli partneriaid y diwydiant i wella'r wybodaeth a gynigir mewn cyrchfannau, ynghyd â chydweithio â Trafnidiaeth Cymru i ddarparu gwybodaeth mewn cyrchfannau, a hynny mewn gorsafoedd trenau a chanolfannau cludiant ledled Cymru. | G |

| Hyrwyddo'r brand | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at ddiwedd 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Annog arferion traws-hyrwyddo rhwng darparwyr, a hynny trwy gyfrwng y blynyddoedd thematig, ynghyd â rhyddhau cynnwys a data ar gyfer trydydd partïon yng Nghymru | Mae'r blynyddoedd thematig wedi dod â'r sector ynghyd i hyrwyddo Cymru, tra bo gwaith y Porth Digidol yn creu storfa gyfoethog o gynnwys i bartneriaid ei defnyddio yn y dyfodol. Mae Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) ar gael i bartneriaid o'r Gronfa Ddata gyfredol ar gyfer Cynnyrch. | Bydd y Ganolfan Frandiau yn galluogi partneriaid i fynd ati'n hwylus i gyrchu cronfa gyfoethog o ffotograffiaeth, ffilm, ac ati o Gymru. Bydd yna gronfa ddata API ar gyfer cynnyrch, sydd wedi cael ei gwella, ar gael i bartneriaid. | G |
| | Annog busnesau unigol i fuddsoddi rhagor yn yr economi leol, a hynny trwy raglen adfywio Ymdeimlad o Le, ynghyd â phwyslais o'r newydd ar ddathlu bwyd, diod, crefftau a deunyddiau lleol | Fel y nodwyd, mae Ymdeimlad o Le wrth wraidd brand Cymru. Mae'r canllawiau a'r fideos astudiaethau achos ar gyfer Ymdeimlad o Le yn annog y diwydiant i ddathlu ymdeimlad o le unwaith eto, gan ddefnyddio atyniadau a phrofiadau fel pwynt gwerthu unigryw allweddol ar gyfer ymwelwyr. Mae ein timau yn gweithio gyda Bwyd a Diod Cymru i annog busnesau twristiaeth i groesawu cynhyrchwyr bwyd a diod lleol, i ddarparu arweiniad ar gyfer y diwydiant, ac i gefnogi digwyddiadau sydd wedi gwella'n sylweddol arfer y sector twristiaeth o ddefnyddio cynnyrch lleol. | Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2020, a hynny yn rhan o raglen wedi'i theilwra ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant (gweler uchod). | G |

## DATBLYGU CYNNYRCH

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Blaeno-riaethau datblygu cynnyrch (4.3)** | **Atyniadau blaenllaw** – sicrhau bod cyfres gadarn o atyniadau a gweithgareddau newydd o safon uchel ar gael | Er 2013, mae ein ffrydiau cyllido gwahanol (ar y cyd â chyllid yr Undeb Ewropeaidd) wedi buddsoddi dros £12.5 miliwn mewn 229 o brosiectau ledled Cymru, a hynny o atyniadau blaenllaw i gymorth ar gyfer seilwaith twristiaeth, marchnata a rheoli cyrchfannau. Mae cynnyrch newydd sydd wedi newid canfyddiadau yn cynnwys Rib Ride a Fforest Coaster ac mae yna gyfres gadarn o brosiectau yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi cefnogi cynnyrch o safon uchel, er enghraifft parêd Llusernau Creadigol Aberteifi a'r anghenfil Cragen, Gwrthryfel Merthyr (Saesneg yn unig) a Dinosoriaid yn Dianc yn Amgueddfa Cymru. Rydym hefyd wedi helpu rhanbarthau i ddatblygu eu cynnig eu hunain, er enghraifft #CanolbarthCymruGolawn – Newid Canfyddiadau (Saesneg yn unig). | Ein blaenoriaethau fydd sicrhau bod yr hyn sydd yn yr arfaeth yn cael ei gyflawni yn brydlon, a hynny yn unol â'r gyllideb, ynghyd â gwneud rhagor o waith i hyrwyddo prosiectau gorffenedig. Byddwn yn adolygu'r cynlluniau cyllido cyfredol yn unol â'r galw a'r adnoddau, ac yn ceisio am gyllid i gymryd lle adnoddau hollbwysig cyfredol gan yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi bod yn rhan hanfodol o faes twristiaeth Cymru. | G |
| | **Llety o ansawdd** – datblygu cynnig mewnfuddsoddi cryf gyda ffocws penodol ar westai brand o ansawdd uchel, gan barhau i gefnogi'r gwaith o uwchraddio ansawdd llety | Mae Croeso Cymru wedi cefnogi gwestai moethus, sbâu a chyfleusterau hamdden o ansawdd uchel, ynghyd â chynnyrch pedair a phum seren. Er enghraifft, mae Neuadd Caer Rhun yng Nghonwy, sy'n blasty â 72 o ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau sba a hamdden, yn westy pedair seren, tra bo gwesty Gwely a Brecwast pum seren bellach ar gael yn The Globe yn Angle, Sir Benfro. Mae tafarn a oedd wedi mynd â'i phen iddi ar Stryd Fawr Rhosneigr bellach yn fwyty pum seren. Bu Croeso Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r GVA i lansio digwyddiad a oedd yn cyflwyno datblygiadau hamdden, gwestai ac atyniadau i fuddsoddwyr posibl, gyda digwyddiad "paratoi ar gyfer cynnig syniad" yn cael ei gynnal cyn hynny ar gyfer awdurdodau lleol. | Mae gwestai pedair seren yn flaenoriaeth. Mae yna awydd yn y sector 'nawr i fuddsoddi mewn llety o ansawdd uchel, ond fel y nodwyd, mae angen dod o hyd i gyllid i gymryd lle adnoddau cyfredol, hollbwysig gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae dau gyfle nodedig i ddatblygu gwestai yng Nghymru yn cynnwys datblygu gwesty â 106 o ystafelloedd gwely, sef gwesty'r Hilton Garden Inn yn Surf Snowdonia (a hynny yn rhan o ail gam y datblygiad), ynghyd â datblygu gwesty brand Mercure, a fydd yn cynnwys 154 o ystafelloedd gwely ynghanol Casnewydd, gan gyd-fynd â'r gwaith o sefydlu Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | **Busnes a Digwyddiadau** – buddsoddi mewn cynnyrch ar gyfer marchnadoedd Busnes a Digwyddiadau, gan gynnwys sefydlu Canolfan Gynadledda Ryngwladol arfaethedig Cymru yng ngwesty'r Celtic Manor. | Bydd Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru a fydd yn agor yn 2019, yn gwasanaethu'r farchnad ar gyfer confensiynau o'r radd flaenaf. Bydd yr adeilad newydd, wedi'i adeiladu o lechi a gwydr, yn gallu dal dros 5,000 o gynadleddwyr, ynghyd â chynnig 2,000 o leoedd parcio ar y safle. Mae wedi'i lleoli'n agos iawn at yr M4. Rydym hefyd wedi buddsoddi £1.46 miliwn yn Venue Cymru, er mwyn cynnal rhagor o ddigwyddiadau a chynadleddau busnes. | Gweler uchod. Ein blaenoriaeth yw meithrin dull sy'n fwy cynaliadwy mewn perthynas â digwyddiadau busnes. | G |
| | **Mordeithio** Datblygu seilwaith mordeithio modern mewn porthladdoedd allweddol er mwyn parhau i ehangu'r farchnad | Yn 2018, daeth 103 o fordeithiau i Gymru, sy'n cynrychioli twf o 30%, gan ddod â 54,000 o deithwyr i'r wlad. Mae enghreifftiau o fuddsoddiad yn cynnwys Prosiect Mordeithiau Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru gan Gyngor Sir Ynys Môn, sy'n rhoi croeso a phrofiad "chwedlonol" i deithwyr, gan gynnwys perfformiadau a digwyddiadau ar y lanfa yng Nghaergybi. Mae'r prosiect wedi creu tair ffilm hyrwyddo ar gyfer sioeau masnach mordeithiau, ac fe'u defnyddiwyd ar y cyfryngau digidol yn rhan o ymgyrch Blwyddyn y Môr 2018. Yn sgil buddsoddiad i greu pontŵn newydd yn Abergwaun gan Gronfa Dyfodol yr Economi – Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, daeth 34 o fordeithiau i borthladd Abergwaun yn ystod 2018, ac mae nifer y teithwyr sydd wedi dod i'r dref ar fordeithiau wedi cynyddu 110% yn 2019. Mae'r buddsoddiad hwn wedi galluogi Abergwaun i ddenu llongau mwy, sydd â lle i 2,500 o deithwyr ar eu byrddau. | Bydd cynnal twf parhaus yn dibynnu ar fuddsoddiad yn seilwaith y porthladd, a hynny ar gyfer llongau mordeithio mwy, ynghyd â'r gallu i ddarparu cysgod i deithwyr ar y cei rhag y gwynt a'r glaw tra byddant yn aros am gael esgyn/ymadael â bwrdd y llong. Mae cynlluniau'n cael eu hystyried i ddatblygu angorfa amlddefnyddiwr, 370 metr.<br>Yn 2020, byddwn yn cynnal gweithdai ledled Cymru i ddod â busnesau a chymunedau lleol ynghyd i ddatblygu rhaglenni a marchnadoedd newydd ar y cei, a fydd yn cynnwys crefftwyr a chynhyrchwyr bwyd, er mwyn rhoi llwyfan i gynhyrchwyr lleol yn y byd mordeithio. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | **Meithrin profiadau treftadaeth a diwylliannol** – cydweithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cadw, i gefnogi buddsoddiad mewn profiad ymwelwyr a darpariaeth llety o gwmpas atyniadau treftadaeth ddiwylliannol nodedig | Yng Nghaernarfon, aethom ati i hwyluso buddsoddiad mewn cyfleusterau sinema newydd yn Galeri, gorsaf derminws newydd ar gyfer Rheilffordd Ucheldir Cymru, gwelliannau ar gyfer ymwelwyr y castell, ynghyd ag ardal i grefftwyr arddangos crefftau o Gymru yn Safle'r Ynys, Cei'r Llechi. Rydym wedi cefnogi safleoedd treftadaeth tebyg i Gastell y Gelli, gan gynorthwyo'r Gelli Gandryll i ddatblygu'n gyrchfan o safon fyd-eang sy'n alinio'n agos â themâu treftadol a diwylliannol. Rydym hefyd wedi cefnogi Eglwys Sant Cybi a Chaer Rufeinig Caergybi, Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn Nhorfaen a Chaerffili, atyniadau newydd, tebyg i'r Amgueddfa Cyflymder ym Mhentywyn, ac atyniad newydd i ymwelwyr, sef yr injan stêm yng ngorsaf derminws Rheilffordd Cwm Rheidol yn Aberystwyth, yn ogystal â dod o hyd i ddibenion newydd i adeiladau hanesyddol, er enghraifft y llety newydd yng Nghaerhun. Rydym wedi cefnogi digwyddiadau treftadaeth, er enghraifft Gŵyl Tân a Môr, Gwlad y Chwedlau Llenyddiaeth Cymru – Twristiaeth Lenyddol yng Nghymru, a Mythau, Llên Gwerin a Chwedlau Dyffryn Gwy. | Byddwn yn datblygu hyn ymhellach yn rhan o'r strategaeth nesaf, a hynny'n unol â chynllun busnes Cadw. Byddwn yn cydweithio â Cadw i integreiddio treftadaeth yn well yn rhan o frand ehangach Cymru, yn ogystal â chydweithio â sefydliadau treftadaeth tebyg i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gynyddu eu cynnig o ran bwyd a diod o Gymru.<br><br>Rydym wedi datblygu bwrdd buddsoddi newydd ar gyfer diwylliant a thwristiaeth i sicrhau bod ein gweithgarwch cyllido yn alinio. | G |
| | Ailddatblygiad gwerth miliynau o bunnau yn Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru | Mae'r ganolfan a'r cyfleusterau newydd i ymwelwyr bellach yn agored ac ar waith. Mae'r safle wedi cael ei gydnabod yn enghraifft ardderchog o ran bwyd a diod o Gymru (gweler isod). | Mae Amgueddfa Sain Ffagan wedi cael ei chydnabod yn un o'r safleoedd allweddol ar hyd Ffordd Cymru, ac mae ganddi'r potensial i gysylltu â mentrau marchnata ehangach. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | **Bwyd a Diod** – parhau i atgyfnerthu enw da cynyddol Cymru fel cyrchfan fwyd, gan gynnwys gweithredu ar y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth a Bwyd | Mae Croeso Cymru yn defnyddio marchnata a buddsoddi i annog busnesau twristiaeth i ddod o hyd i gynnyrch o Gymru a'i gynnwys ar fwydlenni ac mewn ryseitiau, ynghyd â gwneud gwell defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn ogystal â buddsoddi mewn bwytai a chaffis cyrchfan, er enghraifft Cobbles neu Dylan's, rydym hefyd yn helpu i ddatblygu cynnyrch bwyd a diod, er enghraifft Blas Cambrian, neu ymgyrch dwristiaeth Canolbarth Cymru, sef #CanolbarthCymruGoIawn, sy'n hyrwyddo bwyd a diod o'r iawn ryw a gynhyrchir yn lleol. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau o gyflenwr i brynwr, ac yn arddangos bwyd a diod leol mewn sioeau teithiol gan Croeso Cymru a digwyddiadau rhyngwladol, er enghraifft IBTM yn Barcelona ac IMEX yn Frankfurt yn ystod 2018. Gall busnesau gyrchu cyfres o becynnau cymorth ar-lein ar gyfer Twristiaeth Bwyd, ynghyd â chymorth un i un. Amlygodd ail don arolwg baromedr ymwelwyr Croeso Cymru yn 2017 fod rhagor o fusnesau yn defnyddio bwyd a diod o Gymru o gymharu â'r cyfnod blaenorol, a'u bod yn hyrwyddo eu harlwy o Gymru ar eu bwydlenni, eu gwefannau ac ar dafod leferydd. | Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cydnabod bwyd a thwristiaeth fel sectorau sylfaenol yn economi Cymru, felly bydd parhau i gefnogi busnesau a hyrwyddo ansawdd bwyd a diod o Gymru yn bwysicach nag erioed. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | **Technoleg ddatblygol** – gweithio gyda'r diwydiant i fanteisio ar dechnoleg newydd i greu profiadau cyffrous a thrawsnewidiol i ymwelwyr, ynghyd â gwella gallu'r diwydiant i gystadlu | Rydym wedi buddsoddi mewn arloesedd digidol, er enghraifft prosiect realiti estynedig 7D Môr Cymru gan yr Ymddiriedolaeth Natur, prosiect iBeacon yng Ngheredigion ac Aberystwyth, gogls Teithwyr Amser ym Mlaenafon, a'r Ganolfan Stormydd yn Saundersfoot. Mae prosiectau'r dyfodol yn cynnwys cyflwyno camerâu i gael lluniau o ansawdd uchel o'r gweilch yn magu ar Lyn Brenig, Dŵr Cymru; technoleg Teithwyr Amser rhith-wirionedd ym Mlaenafon; a phrofiad rhith-wirionedd ar gyfer ymwelwyr Canolfan Mileniwm Cymru. Fel y nodir isod, mae ein Cynghorwyr Ansawdd yn tynnu sylw busnesau twristiaeth at raglen Cyflymu Cymru, ac yn cyfeirio busnesau at hyfforddiant digidol ar-lein. | Y blaenoriaethau yw cydweithio â thîm digidol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yna gysylltedd digidol ar hyd Ffordd Cymru, ynghyd â gwaith contractio gyda phrosiect Cyflymu Cymru i gynnig rhaglenni hyfforddiant ychwanegol cyn lansio'r Porth Digidol. | M |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Sicrhau Ansawdd (4.4)**<br>(D.S. nid oedd yna flaenoriaethau penodol yn ystod 2016) | Cynlluniau Sicrhau Ansawdd | Yn 2018, llwyddodd 132 o fusnesau llety a 26 o atyniadau i gael Gwobr Aur Croeso Cymru am ragoriaeth yn eu cyfleusterau a'u gwasanaethau i gwsmeriaid. Ar y cyfan, mae nifer y busnesau pedair a phum Seren wedi cynyddu o 69% (2012) i 75% (2018). Mae busnesau twristiaeth hefyd yn manteisio ar ragor o wasanaethau – mae 533 o fusnesau wedi cofrestru ar raglen Cyflymu Cymru i Fusnesau, gyda 426 ohonynt wedi manteisio ar y gwasanaeth llawn. Mae timau Croeso Cymru hefyd yn gweithio i wella'r safonau mewn meysydd eraill. Erbyn hyn, mae 190 o ddarparwyr gweithgareddau wedi ymuno â dull newydd ar y cyd â Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru, sy'n cynnig achrediadau i weithgareddau awyr agored (Saesneg yn unig), ac sy'n galluogi ymwelwyr i ddewis darparwyr gweithgareddau diogel ac o ansawdd uchel o bob cwr o Gymru, a hynny mewn modd hawdd. Ochr yn ochr â sefydliadau twristiaeth cenedlaethol eraill, rydym yn cydnabod bod angen i'r broses o Sicrhau Ansawdd newid yn unol â'r amgylchedd gweithredu newydd, ond ei bod yn parhau'n berthnasol i bartneriaid a busnesau; felly, rydym yn cydweithio ag eraill i adolygu'r system. | Blaenoriaethau'n cynnwys cyflwyno'r arwyddion brand newydd tystysgrifau a logos y brand, parhau i adolygu'r meini prawf ar gyfer y cynlluniau Sicrhau Ansawdd, a hynny'n unol ag argymhellion o adolygiadau, cyflwyno Gwobrau Croeso ychwanegol i gydnabod busnesau sy'n diwallu anghenion neu ddiddordebau penodol ymwelwyr, er enghraifft pysgotwyr, anifeiliaid anwes, beicwyr modur, cartrefi modur, yn ogystal â gweithio gyda Busnes Cymru i gryfhau'r rôl o ran cymorth busnes ar gyfer y broses sicrhau ansawdd. Byddwn hefyd yn cyflwyno offeryn ar-lein a fydd yn galluogi busnesau i feithrin Canllawiau Hygyrchedd (a fydd yn disodli'r Datganiadau Mynediad), a hynny er mwyn helpu ymwelwyr posibl i gael gwybodaeth am hygyrchedd a fydd, yn y pen draw, yn cyfrannu at swyddogaeth chwilio ar gyfer defnyddwyr. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Cysylltedd i Gymru (4.5)**<br><br>**Ffyrdd** | Cydweithio ag Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion twristiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o gynlluniau seilwaith y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw drafodaethau ynghylch tollau pellach ar gyfer Pont Hafren | Gweler isod. Diddymwyd tollau Pont Hafren ym mis Rhagfyr. | Gweler uchod. Rydym yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos â chyd-weithwyr yr Is-adran Trafnidiaeth. | G |
| | Gwneud rhagor i ddatblygu a hyrwyddo llwybrau twristiaeth allweddol Cymru i ymwelwyr, a hynny ar y cyd â'r Is-adran Trafnidiaeth | Mae Ffordd Cymru yn un o'n cynnyrch blaenllaw ar gyfer hyrwyddo llwybrau twristiaeth allweddol (gweler uchod). Bydd prosiectau tebyg i Rheilffordd Ysgafn Arfordir Gogledd Cymru – Trenau Bach Arbennig Cymru (sy'n adeiladu ar lwyddiant prosiect Big Train Little Train (saesneg yn unig)) yn cysylltu â Ffordd Cymru er mwyn denu ymwelwyr sy'n cyrraedd gan ddefnyddio'r ffyrdd. Rydym hefyd wedi cefnogi prosiectau cysylltedd gwledig, er enghraifft Datblygu Mannau Croeso – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac Arwyddion a Mapiau i Ymwelwyr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. | Fel y nodwyd, Ffordd Cymru yw canolbwynt y gwaith hwn, a byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu cynnyrch ar hyd y llwybr hwn, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r Is-adran Trafnidiaeth, Llwybr Arfordir Cymru ac eraill. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Ymgysylltu â gweithredwyr bysiau trwy weithgarwch masnach deithio er mwyn sicrhau bod teithio ar fysiau i Gymru, ac o gwmpas y wlad, yn datblygu yn y modd mwyaf effeithiol | Rydym wedi darparu rhywfaint o gymorth i helpu awdurdodau lleol i ymgysylltu â gweithredwyr bysiau, gan gynnwys helpu Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Powys i osod sgriniau arddangos delweddau wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur (CGI) "Clyfar" ar fysiau T2 a T5 Traws Cymru. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau parcio bysiau, toiledau ac ati ledled Cymru i gefnogi'r cynnig teithiau coetsys. | Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith sy'n hwyluso rhagor o deithiau i grwpiau ar fysiau. | M |
| **Rheilffyrdd** | Cydweithio ag Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i roi cyngor ar ofynion twristiaeth mewn perthynas â chytundebau masnachfraint rheilffyrdd yn y dyfodol | Yn rhan o'r broses gaffael, aeth cynrychiolwyr ar ran Croeso Cymru i gwrdd â chynigwyr masnachfraint rheilffyrdd, a hynny er mwyn nodi cyfleoedd marchnata, canfod cyfleoedd penodol i gydweithio mewn perthynas â theithiau rheilffyrdd ar hyd Ffordd Cymru, ac annog pobl yng Nghymru i ddewis gwyliau hir a byr sy'n fwy lleol. | Rydym yn gweithio gyda masnachfraint Trafnidiaeth Cymru i wireddu'r cyfleoedd a drafodwyd yn ystod y broses cyflwyno ceisiadau . | G |
| | Adeiladu ar berthnasoedd â chwmnïau teithio allweddol sy'n gwasanaethu Cymru trwy wneud rhagor o waith marchnata yn y rhwydwaith, yn ogystal â gorsafoedd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad cyflymder uchel a fydd yn cael ei roi ar waith yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf | Mae gan dîm marchnata Croeso Cymru bartneriaeth â Great Western Rail, ac, yn flaenorol, â Threnau Arriva Cymru. Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd wedi cefnogi amrywiaeth o bartneriaethau rheilffyrdd cymunedol ledled Cymru. | Byddwn yn parhau i ddatblygu'r mathau hyn o gyfleoedd yn rhan o fasnachfraint newydd Trafnidiaeth Cymru. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Parhau i lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth Metro a'r gwaith brandio/ marchnata er mwyn sicrhau bod y gofynion ar gyfer twristiaeth yn cael eu bodloni | Mae Trafnidiaeth Cymru wedi penodi arweinydd marchnata pwrpasol i fynd i'r afael â gwaith brandio a marchnata prosiect y Metro. | Bydd Tîm Marchnata Croeso Cymru yn gweithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod gweithgarwch y cwmni yn cydymffurfio â gwaith brand Cymru ac yn bodloni'r gofynion ar gyfer twristiaeth. | G |
| **Cysylltedd – Môr** | Parhau i arwain y gwaith o gyflwyno rhaglen fordeithio gadarn a chynaliadwy i Gymru | Yn 2013, cyrhaeddodd dwy long fordeithio borthladd Abergwaun; yn 2018, croesawyd 36 o longau mordeithio i Abergwaun (gweler uchod). Rydym wedi denu cwmnïau newydd (NCL a Viking), ac rydym yn parhau i ddenu llongau "fforio", a hynny o ganlyniad i'n bywyd gwyllt, ein planhigion, a'n hanifeiliaid. Rydym yn parhau i feithrin perthynas weithredol gadarn â phob un o brif weithredwyr y cwmnïau mordeithio. Rydym hefyd wedi cefnogi'r rhaglen groeso a'r [fideos hyrwyddo newydd ar gyfer Gogledd Cymru] a fydd yn cael eu defnyddio mewn arddangosfeydd mordeithio rhyngwladol. | Rydym yn parhau i dargedu cwmnïau newydd i ymweld â phorthladdoedd Cymru, ynghyd â chynyddu nifer yr ymweliadau dychweliad. Byddwn yn parhau i arddangos mewn digwyddiadau masnach, gan gynnwys Seatrade Europe, Seatrade Med a Cruise Shipping Global, Miami. Bydd ein hymweliadau B2B yn parhau yn y Deyrnas Unedig, yn Ewrop, ac yn yr Unol Daleithiau. | G |
| | Parhau i gynnal ymgyrchoedd ymarferol a thactegol gyda chludwyr môr, gan gynnwys DFDS, Seaways a P&O Ferries | Mae Croeso Cymru yn cynnal ymgyrchoedd partneriaeth llwyddiannus â chludwyr môr yn yr Almaen ac yn Iwerddon, ac mae hynny wedi chwarae rhan allweddol yn ein hymdrechion i ganolbwyntio ar weithgarwch mwy targededig, sy'n seiliedig ar bartneriaeth, ar gyfer y marchnadoedd hyn. | Gyda ffocws yn parhau ar Iwerddon, rydym yn gweithio gyda Stena ac Irish Ferries i ddatblygu partneriaethau marchnata ar y cyd. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Meithrin perthnasoedd mwy strategol â'r cwmnïau hyn er mwyn ystyried datblygu llwybr hirdymor, yn ogystal â chyfleoedd hyrwyddo amlfarchnad | Yn rhan o ffocws newydd ar lai o bartneriaethau masnachol, sy'n fwy ac yn well, bydd Croeso Cymru yn ystyried partneriaethau masnach penodol cyfredol ar gyfer cludwyr môr, ynghyd â'r cyfleoedd ehangach y gallai'r rhain eu cyflwyno. Er enghraifft, mae negeseuon am Gymru yn ymddangos ar fwrdd y llongau. | Mae cynnal perthynas weithredol agos â phartneriaid strategol, er enghraifft Stena ac Irish Ferries, yn ein galluogi i gynllunio gweithgareddau a fydd o fudd i'r naill a'r llall. | G |
| **Cysylltedd – Awyr** | Cydweithio â Thîm Hedfanaeth newydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â VisitBritain, i ddatblygu Strategaeth Datblygu Llwybrau i Gymru | Mae Croeso Cymru wedi cydweithio â Maes Awyr Caerdydd ac Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth farchnata sy'n gysylltiedig â chynlluniau i ddatblygu llwybrau yn y dyfodol. Mae deilliannau allweddol y gwaith cynnar hwn yn cynnwys sefydlu partneriaeth farchnata newydd ar y cyd â Qatar Airways, partneriaeth farchnata strategol newydd â KLM, trafodaeth â Flybe ynghylch cynnal ymgyrchoedd mwy strategol a chydlynol blynyddol, ynghyd â chymryd rhan mewn partneriaeth gyda Virgin Atlantic, a hynny dan arweiniad VisitBritain/ Marketing Manchester (er mwyn hyrwyddo Gogledd Cymru mewn modd cydweithredol). | Yn y dyfodol, mae angen i ni weithio'n agosach gyda VisitBritain mewn perthynas â phartneriaethau llwybrau hedfan. | G |
| | Gweithio gyda VisitBritain i sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli fel cyrchfan yn World Routes 2016 | Bu Croeso Cymru yn cydweithio'n agos â VisitBritain a Maes Awyr Caerdydd i sicrhau presenoldeb yn World Routes 2016 a 2017. | Bydd Croeso Cymru yn parhau i gefnogi'r digwyddiad hwn yn flynyddol. | G |

| Datblygu cynnyrch | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Cynnal cyfarfodydd rheolaidd â phartneriaid ar ran y meysydd awyr a'r cwmnïau hedfan er mwyn archwilio blaenoriaethau o ran datblygu llwybrau newydd strategol | Gweler uchod. | Parhaus. | G |
| | Gweithio mewn partneriaeth gyda chwmnïau hedfan a meysydd awyr i hyrwyddo teithiau awyr i Gymru, neu feysydd awyr sy'n gweithredu fel pyrth yn ein marchnadoedd targed allweddol, a hynny gyda'r nod o sicrhau cynnydd gweladwy yn nifer y teithwyr sy'n dod i Gymru | Gweler uchod. | Parhaus. | M |
| **Canolfannau Trafnidiaeth** | | Gweithio gyda phartneriaid yn y pyrth trafnidiaeth allweddol yng Nghymru, yn ogystal â phwyntiau mynediad pwysig y tu allan i Gymru, er enghraifft gorsafoedd Euston a Paddington, er mwyn gwella gwelededd Cymru a phrofiad ymwelwyr yn y canolfannau hyn | Yn 2017, llwyddwyd i feithrin ymwybyddiaeth o Gymru yn dilyn ymgyrch farchnata yng Ngorsaf Euston, ac rydym hefyd wedi cefnogi partneriaid tebyg i gwmni Twristiaeth Gogledd Cymru ym Maes Awyr Manceinion (gweler uchod). Rydym hefyd wedi buddsoddi yn y gwaith o ail-frandio Porthladd Caergybi i'w wneud yn fwy croesawgar i ymwelwyr o dramor (gweler uchod – Mordeithio). | G |

## DIGWYDDIADAU MAWR

| Digwyddia-dau mawr | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Denu rhagor o ddigwy-ddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngw-ladol mawr i Gymru yn y cyfnod rhwng 2019 a 2026 (5.3)** | Denu digwyddiadau newydd, uchel eu proffil, sy'n denu ymweliadau gan bobl o'r tu allan i Gymru sy'n gwario'n helaeth. | Yn ystod 2017-2018, aethom ati i gefnogi 22 o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon ledled Cymru, gan gynnwys digwyddiadau mawr tebyg i rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA a digwyddiadau creadigol, tebyg i Ŵyl Gomedi Machynlleth. At ei gilydd, llwyddodd y digwyddiadau hyn i ddenu dros 282,000 o ymwelwyr i Gymru, gan arwain at effaith economaidd uniongyrchol o £72.5 miliwn, ynghyd â chefnogi dros 1,600 o swyddi yn yr economi dwristiaeth. Rydym hefyd yn ymgorffori ein hagendâu ehangach yn rhan o ddigwyddiadau o'r fath – er enghraifft, dylai cwmnïau digwyddiadau sy'n gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru weini bwyd a diod o Gymru yn ystod eu digwyddiadau. | Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i ddenu rhagor o ddigwyddiadau rhyngwladol mawr i Gymru, gan edych ar gyfleoedd megis er enghraifft Cwpan y Byd FIFA yn 2030. Fodd bynnag, mae hon yn farchnad sy'n ffyrnig o gystadleuol, ac mae yna heriau penodol o ran y gwaith o gynnal a datblygu safle Cymru. Rydym hefyd am ddatblygu digwyddiadau cyfredol Cymru, ynghyd â sefydlu rhai newydd. | G |
| | Cefnogi'r Blynyddoedd Thematig trwy gynnal digwyddiadau angori sydd eisoes wedi cael eu cynllunio ar gyfer y Flwyddyn Antur, y Flwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr | Yn 2017, cafwyd "Haf o Arwyr Chwaraeon" yn sgil cynnal Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA, ynghyd â Thlws Pencampwyr yr ICC a'r Bencampwriaeth Golff Agored Hŷn yn llwyddiannus. Am y tro cyntaf yn hanes y ras, cynhaliwyd y Volvo Ocean Race yng Nghymru, a dyna oedd prif ffocws "Blwyddyn y Môr". Roedd yn llwyfan fyd-eang i weinidogion Cymru hyrwyddo amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni cynaliadwyedd. | Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein buddsoddiad mewn digwyddiadau yn cyfateb â'r blynyddoedd thematig, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn ogystal â Ffordd Cymru a buddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn cyfleusterau twristiaeth. | G |

| Digwyddia-dau mawr | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd brandio ar gyfer pob digwyddiad, er mwyn darparu profiad Cymreig nodedig a chynhyrchu cynnwys gwerthfawr a chyhoeddusrwydd am ddim ledled y byd | Yn 2017-2018, aethom ati i ganolbwyntio ar "Restr Fer" o bum digwyddiad a oedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau marchnata Cymru, gan eu bod yn adlewyrchu'r blynyddoedd thematig, yn cynnig mynediad i diriogaethau targed, neu'n apelio at gynulleidfaoedd targed. Roedd hyn yn cynnig lefel newydd o gydweithredu rhwng portffolio'r digwyddiadau a gefnogir ac amcanion marchnata Cymru, sydd wedi gwella gwerth am arian y gwariant ar gyfer marchnata. | Bydd y gweithgarwch marchnata ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol yn parhau i gefnogi ac adlewyrchu gwerthoedd brand Cymru, sef sicrhau Profiadau Go Iawn, Creadigol a Byw, yn ogystal â darparu cynnwys i'w ddefnyddio mewn ymgyrchoedd marchnata ar gyfer Blynyddoedd Thematig Cymru, ynghyd â chynnyrch twristiaeth newydd, tebyg i Ffordd Cymru. | G |
| | Cyhoeddi calendr o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru, darparu gwybodaeth i ymwelwyr a gwaith hyrwyddo trwy gyfryngau ac ymgyrchoedd Croeso Cymru, er mwyn llywio cyfleoedd ar gyfer ymweliadau estynedig, ailadroddus, a hynny trwy gydol y flwyddyn | Fel y nodwyd, mae Digwyddiadau Mawr a Croeso Cymru bellach yn cydweithio'n agos â'i gilydd er mwyn denu a marchnata digwyddiadau. Erbyn hyn, mae Croeso Cymru yn cyhoeddi calendr o'r gwyliau a'r digwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal ledled Cymru. Mae yna rywfaint o dystiolaeth bod gwaith marchnata Croeso Cymru yn cyfrannu at ragor o ymweliadau o boptu'r prif dymor ymwelwyr. | | G |

## DATBLYGU POBL

| Datblygu pobl | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y Camau Nesaf | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau hyd at 2020 (6.3)**<br>Cytundeb cyffredinol na ddylai cylch gwaith Croeso Cymru ymestyn y tu hwnt i'r rôl cydgysylltu a dylanwadu strategol gyfredol – mae yna ddigon o gyfleoedd hyfforddi ar gael ym maes Addysg Bellach ac Addysg Uwch – y flaenoriaeth yw sicrhau bod y diwydiant yn ymwybodol o hynny, ac yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael | Parhau i weithio gyda'r Adran Addysg a'r sector hyfforddiant addysg i ddylanwadu ar raglenni hyfforddi sgiliau a chynlluniau prentisiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r sector twristiaeth ac yn parhau'n gydnaws ag anghenion y diwydiant a'r cwsmeriaid | Caiff y Diwydiant Twristiaeth ei gynrychioli ar bob un o'r partneriaethau sgiliau dysgu Rhanbarthol, ac mae eu hadroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru yn dylanwadu ar arferion dysgu mewn sefydliadau addysg bellach a chynlluniau prentisiaethau ledled Cymru. Rydym wedi cydweithio â Gyrfa Cymru i lunio taflen wybodaeth am sgiliau twristiaeth er mwyn rhoi gwybod i ddisgyblion ysgol am gyfleoedd gyrfa yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch, ynghyd â gwella tudalen We y gwasanaeth, sef Golwg ar dwristiaeth, ar gyfer myfyrwyr. | Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector preifat trwy'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol, ynghyd â thîm polisi sgiliau Llywodraeth Cymru.<br>Mae prosiect peilot ar y cyd â Gyrfa Cymru yn annog rhagor o fusnesau twristiaeth i gysylltu ag ysgolion lleol a meithrin ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y diwydiant. | M |

| Datblygu pobl | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y Camau Nesaf | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Annog busnesau twristiaeth i fanteisio'n fwy ar Borth Sgiliau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein newydd | Mae gan y dudalen sgiliau yn y Parth Twristiaeth, sy'n wynebu'r sector, ddolenni i'r Porth Sgiliau, y Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein a gwybodaeth am brentisiaethau. Mae cwrs Cymraeg rhad ac am ddim ar-lein, sy'n ddeg awr o hyd, hefyd ar gael ar gyfer busnesau twristiaeth. | Rydym yn adolygu hyn i sicrhau bod busnesau'n gallu cyrchu'r cwrs yn hwylus. | M |
| | Ystyried rôl y Cynghorwyr Ansawdd wrth hyrwyddo a thynnu sylw at ddatblygu sgiliau a hyfforddiant, ynghyd â chyfleu anghenion y diwydiant | Gweler uchod. Yn rhan o ymweliad y Cynghorydd Ansawdd, bydd yn trafod sgiliau a hyfforddiant, ac yn tynnu sylw gweithredwyr at Busnes Cymru a'r dudalen sgiliau ar y Parth Twristiaeth, fel y bo'n briodol. | Bydd Cynghorwyr Ansawdd yn parhau i drafod a thynnu sylw, fel y bo'n briodol. | G |
| | Ariannu'r rôl gydgysylltu ar gyfer nifer bach o gyrchfannau, gan eu helpu i gael statws Cyrchfan WorldHost, ynghyd â defnyddio'r hyn a ddysgir i ddatblygu safonau o ran arferion gorau, a hynny ar gyfer cyrchfannau eraill ledled Cymru | Er bod gennym dair cyrchfan pan aethom ati i ddechrau ar waith y fenter hon, ni chwblhawyd y gwaith hwnnw, a hynny, yn rhannol, oherwydd bod mudiad partner allweddol wedi dod i ben. | | C |

| Datblygu pobl | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y Camau Nesaf | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflwyno Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol ar gyfer rhagoriaeth ym maes gwasanaeth cwsmeriaid yn 2017-2018 | Penderfynodd y Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth beidio â chynnwys categori penodol ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2018, a hynny er mwyn cynnal cysondeb ledled Cymru. | Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r categori hwn yng ngwobrau 2020 | M |
| | Ar y cyd â'r Adran Addysg, ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu elfen gwasanaeth cwsmeriaid yn rhan o Fagloriaeth Cymru | Er na fu'n bosibl ymgorffori elfen gwasanaeth cwsmeriaid yn rhan o Fagloriaeth Cymru, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu rhagor o "sgiliau meddal" ledled cwricwlwm yr ysgol. | | Y |
| | Datblygu prosiect y Teithiau Dysgu er mwyn meithrin arferion gorau mewn perthynas â blaenoriaethau strategol allweddol a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys twristiaeth busnes, yn ogystal â sicrhau bod y broses o drosglwyddo gwybodaeth i gyfranogwyr, ac unigolion ledled y diwydiant ehangach, mor fuddiol â phosibl. | Cwblhawyd Pedair Taith Ddysgu yn llwyddiannus, gan dywys busnesau allweddol o Gymru, sy'n perthyn i'r sectorau Gwestai, Sbâu, Digwyddiadau Busnes ac Atyniadau, ar daith i ddysgu gan fusnesau blaenllaw yn y Deyrnas Unedig. Rhannodd y grŵp y sector gwesty ei ddirnadaethau newydd trwy gynnal ei daith ddysgu ei hun â busnesau lleol o Gymru. Bu'r daith ddysgu Digwyddiadau Busnes yn ganolog i'r gwaith o gorlannu grŵp o gyfranwyr blaenllaw yn y sector hwn, ac mae wedi arwain at lunio rhaglen newydd Digwyddiadau Busnes Croeso Cymru. | Ystyried yr angen i gynnal rhagor o deithiau dysgu. | G |

| Datblygu pobl | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y Camau Nesaf | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Parhau i hyrwyddo a chyfleu mentrau partneriaid sydd wedi cael eu hanelu at newid canfyddiadau o yrfaoedd ym maes twristiaeth | Yn 2017, cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid sgiliau rhanbarthol, gan gynnwys Gyrfa Cymru, Colegau Addysg Bellach a darparwyr prentisiaethau, er mwyn nodi materion allweddol ac ymchwilio i rai o'r atebion. Mae'r tîm mordeithio yn cynnal diwrnodau gyrfaoedd mewn colegau lleol, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ymweld â llongau mordeithio er mwyn gweld yr adrannau gwahanol wrth eu gwaith. | Mae yna brosiect newydd ar waith sy'n cysylltu busnesau twristiaeth ag ysgolion lleol er mwyn newid canfyddiadau. Rydym yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill i annog pobl ifanc, ac unigolion eraill, i ystyried gyrfaoedd ym myd twristiaeth. Rydym yn trefnu ymweliadau â llongau mordeithio yng Nghaergybi ac yn Abergwaun ar gyfer myfyrwyr Coleg Ceredigion a Choleg Llandrillo. | G |
| | Annog busnesau i ddarparu tywyswyr cymwys a llysgenhadon lleol, sy'n meddu ar sgiliau iaith addas i fodloni gofynion ymwelwyr rhyngwladol | Mae Croeso Cymru wedi cydweithio â Chymdeithas Swyddogol Tywyswyr Cymru (WOTGA) i gadarnhau'r broses achredu, ac wedi cefnogi'r cais cyllido dilynol i feithrin yr arfer gorau o ran darparu gwasanaeth tywys o safon. Mae Mordeithiau Cymru wedi hyfforddi pobl sy'n byw yng Nghymru, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith Almaeneg, i ddod yn llysgenhadon ar gyfer teithwyr ar fordeithiau. | Bydd sesiynau hyfforddi newydd yn cael eu cynnal yng Ngogledd a De Cymru rhwng mis Mai a mis Hydref 2019, er mwyn paratoi at dymor mordeithio 2020 | G |
| | Ysgol letygarwch newydd bosibl | Mae cynrychiolwyr ar ran y sector wedi nodi'r angen i gael ysgolion penodol ar gyfer lletygarwch. Gan fod hyn y tu hwnt i'n cylch gwaith, rydym yn ymgynghori â chyd-weithwyr ym maes polisi sgiliau, sydd wedi gwneud cais am dystiolaeth gan y diwydiant i gefnogi'r safbwynt hwn. | Mae Croeso Cymru yn cydweithio â thîm polisi sgiliau Llywodraeth Cymru i drefnu blaenoriaethau. | M |

## MEITHRIN LLE

| Meithrin lle | Targed 2016 | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau hyd at 2020 (7.3)**<br>Dosbarthiad da o ran twf yn nifer yr ymwelwyr a lefelau uchel o foddhad; er hyn, prin iawn yw'r brandiau cyrchfan yng Nghymru sydd yr un mor adnabyddus â'r prif adnoddau gwyliau a chyrchfannau gwyliau dinesig | Archwilio'r dull gweithredu mewn perthynas â phartneriaethau cyrchfan er mwyn penderfynu sut y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaethau'r sectorau cyhoeddus/preifat i gefnogi rhwydwaith o gyrchfannau cynaliadwy, sy'n cael eu datblygu a'u hyrwyddo yn unol ag anghenion y farchnad a blaenoriaethau lleol | Rydym wedi atgyfnerthu ein cymorth ar gyfer prosiectau sy'n dod â phartneriaid ynghyd. Er enghraifft, mae prosiect Ffordd y Môr Gwynedd, sy'n hyrwyddo cynnyrch ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn bartneriaeth weithredol newydd rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro, ac mae'n cyflawni blaenoriaethau ar gyfer cyrchfannau, gan gydymffurfio'n llwyr, ar yr un pryd, â Ffordd Cymru a brand Cymru. Mae enghraifft arall o bartneriaeth gadarnach yn cynnwys ymgyrch farchnata Canolbarth Cymru Go Iawn, lle mae Twristiaeth Canolbarth Cymru yn cydweithio â chyrchfannau Mynyddoedd Cambria, Ceredigion a Chanolbarth/Gogledd Powys. | Caiff y mater hwn ei ystyried yn y cynllun nesaf. | M |
| | Sicrhau bod cymorth ariannol ar gyfer datblygu cynnyrch yn cael ei alinio â'r blaenoriaethau rheoli cyrchfannau | Yn 2016, aethom ati i lansio cronfa seilwaith newydd yr Undeb Ewropeaidd, ar raddfa fach (sef Cymorth Buddsoddi Mewn Amwynderau Twristiaeth), sydd wedi'i thargedu at ddatblygu cyrchfannau, ac, erbyn hyn, mae'n rhaid i holl gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau twristiaeth gael ei gysylltu â Chynlluniau Rheoli Cyrchfannau sy'n nodi blaenoriaethau lleol, a ddatblygwyd gan randdeiliaid cyhoeddus a phreifat. Yn ystod 2016-2018, roedd 29 o brosiectau Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol wedi'u cysylltu â Chynlluniau Rheoli Cyrchfannau lleol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y buddsoddiadau ym Mhont ar Daf, Rhosili a Phontneddfechan. | Rydym yn archwilio ffyrdd o gynnal y cymorth ar gyfer datblygu cynnyrch yn y dyfodol. | G |

| Meithrin lle | Targed 2016 | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Nodi cyrchfannau sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer twf, a'r cryfder yn y farchnad i gael eu hyrwyddo yn frandiau cyrchfannau is-genedlaethol arweiniol | Cyflwynodd Croeso Cymru wobr "Y Cyrchfan Orau" i Wobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2018 – gyda'r Bannau Brycheiniog yn dod i'r brig. | Ar ôl datblygu'r brand, rydym bellach yn ystyried brandiau rhanbarthol is-genedlaethol a'r modd y gallwn eu cefnogi orau. | Y |
| | Gwneud y defnydd gorau o'r cyllid o £85 miliwn, a gafodd ei sicrhau yn ddiweddar gan yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn cyflwyno buddsoddiadau seilwaith twristiaeth strategol mewn 11 o gyrchfannau arfordirol, hanesyddol ac antur ledled Cymru | Mae Croeso Cymru wedi sicrhau gwerth £27.7 miliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, a fydd yn darparu buddsoddiad gwerth £62 miliwn i ddatblygu 11 o gyrchfannau "o'r radd flaenaf" ledled Cymru. Bydd y rhaglen yn targedu buddsoddiad mewn cyrchfannau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft Saundersfoot, Porth-cawl, Glan y Môr Bae Colwyn, Caernarfon, Pentywyn ac Ynys Gybi oddi ar Ynys Môn. Disgwylir y bydd y prosiectau wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2020. | Disgwylir y bydd pob prosiect yn cael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020. | G |
| | Hyrwyddo'r pecynnau cymorth ar-lein newydd i helpu'r diwydiant i ddatblygu dull gweithredu cynaliadwy ac ymdeimlad unigryw o le | Gweler y cynlluniau Rheoli Cyrchfannau uchod. Mae'r pecyn cymorth Twristiaeth Gynaliadwy ar gael ar-lein yma. | | G |
| | Rhoi cyngor polisi strategol ar bwysigrwydd twristiaeth a'r manteision y gellid eu gwireddu ar sail y buddsoddi yn y seilwaith, er enghraifft yr M4 a thrydaneiddio'r rheilffyrdd | Gweler uchod. | Parhau i gydweithio â chyd-weithwyr ym maes trafnidiaeth mewn perthynas â chynlluniau arfaethedig o ran seilwaith. | G |

## PERFFORMIAD PROFFIDIOL

| Perfformiad proffidiol | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| Mae yna her strategol yn parhau i gynyddu gwariant ymwelwyr, ynghyd â'r niferoedd sy'n dod ar wyliau i Gymru o gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig – fodd bynnag, mae'n bosibl y bu'r canfyddiad o gynnig gwerth da am arian yn un o'r ffactorau wrth i Gymru sicrhau cyfran gynyddol o'r farchnad ymwelwyr domestig sy'n aros dros nos | Monitro canfyddiadau cystadleuol o werth am arian a rhoi cyngor i'r diwydiant ar amodau cyfnewidiol y farchnad, senstifrwydd prisiau marchnadoedd allweddol a chyfleoedd iddynt uwchraddio, atgyfnerthu ac ehangu eu hatyniad yn y farchnad | Mae gwerth am arian yn ffactor mawr wrth wneud penderfyniadau am wyliau hamdden, a hynny ar gyfer ymwelwyr domestig a rhyngwladol, fel ei gilydd. Mae'r gostyngiad sylweddol yng ngwerth y bunt er 2016 yn golygu bod gwyliau domestig yn y Deyrnas Unedig, a gwyliau ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol, yn cynnig rhagor o werth am arian. Ystyrir bod Cymru yn cynnig gwerth da am arian i'r rheiny sy'n mynd ar wyliau domestig, ac mae bron chwarter o'r bobl sy'n mynd ar wyliau yn y Deyrnas Unedig yn dweud ei bod yn debygol y byddant yn mynd ar ragor o wyliau yn y Deyrnas Unedig yn ystod 2019, gyda llawer yn nodi bod rhesymau ariannol a fforddiadwyedd yn dylanwadu ar hynny. Fodd bynnag, mae ymwelwyr rhyngwladol yn fwy tebygol o ystyried bod y Deyrnas Unedig yn lle drud, ac, erbyn hyn, mae llai o deithwyr yn nodi bod y cwymp yng ngwerth y bunt yn eu gwneud yn fwy tebygol o ymweld â Phrydain. | Mae'r gallu i gynnig gwerth am arian yn parhau'n bwysig i Gymru, yn ogystal â pharhau i fonitro ac ymateb i amodau'r farchnad, gan gynnwys unrhyw achos o gryfhau yng ngwerth y bunt. Mae cynyddu gwariant ymwelwyr yn parhau'n her allweddol, yn enwedig wrth i hyd ymweliadau fyrhau. | G |

| Perfformiad proffidiol | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Busnesau yng Nghymru i roi dulliau rheoli arenillion a marchnata cwsmeriaid effeithiol ar waith er mwyn denu ymweliadau sydd â gwerth ychwanegol, arosiadau hwy ac ymweliadau gan ymwelwyr sy'n dychwelyd, gyda'r nod o wella profiad y cwsmeriaid, y niferoedd sy'n dod ar wyliau a'r proffidioldeb trwy gydol y flwyddyn | Trwy gyfrwng y Baromedr Twristiaeth, mae busnesau twristiaeth yn adrodd yn gyson am lefelau tebyg neu gynyddol o ran ymwelwyr ac elw, er bod y costau sy'n codi ac amodau marchnad llymach yn rhwystro perfformiad. Mae Croeso Cymru yn rhannu arferion gorau ac yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael trwy Busnes Cymru, ac mae yna [becyn cymorth cynaliadwy] ar gael gan y Gymdeithas Dwristiaeth er mwyn helpu busnesau i fod yn fwy effeithiol. | | G |
| | Targedu gweithgarwch marchnata at farchnadoedd sy'n weithredol trwy gydol y flwyddyn ac sy'n cynnig arenillion uwch, gan gynnwys cynyddu nifer y teithiau gan ymwelwyr rhyngwladol, busnes a digwyddiadau, ymweliadau diwylliannol a gweithgareddau, ynghyd ag ymwelwyr newydd sy'n ymweld am y tro cyntaf, gan sicrhau cydbwysedd o ran gwyliau byr ac arosiadau hwy | Er bod y rhan fwyaf o deithiau dros nos a rhyngwladol yn digwydd yn ystod misoedd yr haf, mae ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru wedi helpu i ddylanwadu ar gynnydd yn ystod y tymhorau tawelach. Mae ymweliadau dydd wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi sicrhau cyfran gynyddol o deithiau dros nos a gwariant gan ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig. | | G |

| Perfformiad proffidiol | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Targedu cymorth ar gyfer busnesau a digwyddiadau sy'n gallu arddangos y gallant gynyddu nifer yr ymweliadau mwy gwerthfawr, gweithredu trwy gydol y flwyddyn, a sicrhau'r gwariant mwyaf ynghyd â'r effaith fwyaf ar gyflogaeth | Fel y nodwyd uchod, mae Croeso Cymru yn parhau i dargedu marchnadoedd sydd ag arenillion uchel, yn arbennig marchnadoedd busnes sy'n dod i'r amlwg, ac, erbyn hyn, mae'n gweithio'n agos gyda'r tîm Digwyddiadau Mawr. Er enghraifft, llwyddodd Gŵyl Tân a Môr Harlech i ddenu dros 1,000 o ymwelwyr a helpu i gefnogi busnesau lleol. | | G |
| | Datblygu brand Cymru a'r negeseuon marchnata yn gynnig gwerthfawr a chryf, yn ogystal â hyrwyddo brand premiwm sy'n fwy nodedig ac sy'n cynnig cyfoeth o brofiadau | Gweler Hyrwyddo'r Brand uchod. | | G |
| | Dylai Partneriaethau Cyrchfan annog gwariant eilaidd gan ymwelwyr a busnesau yn yr economi leol, a hynny trwy ddarparu profiad nodedig ac o'r iawn ryw gan hyrwyddo bwyd a diod leol, y celfyddydau, crefftau, digwyddiadau a siopau arbenigol lleol | Fel y nodwyd, mae'r cyllid gwerth £12.5 miliwn a neilltuwyd i dwristiaeth er 2012 wedi cefnogi digwyddiadau lleol nodedig, wedi meithrin ymwybyddiaeth o fwyd a diod leol, a'r arfer o'u defnyddio, ac mae'n cefnogi swyddi lleol. Er enghraifft, daeth hanes canoloesol Conwy yn fyw ym mis Mehefin 2017 wrth i'r dref gynnal "Y Twrnamaint", gan ddenu ymwelwyr yn ystod cyfnod o'r flwyddyn a fyddai fel arfer yn dawel. Roedd pob llety yn nhref Conwy yn llawn dros gyfnod y digwyddiad hwn, gyda lleoedd cysgu 20% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ar gyfer yr un penwythnos. | Parhau i gefnogi profiadau nodedig o'r iawn ryw. | G |

| Perfformiad proffidiol | Blaenoriaeth 2016 wedi'i diweddaru | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf hyd at 2020 | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Ystyried effaith trethiant a datblygiadau polisi perthnasol ar gostau, gallu i gystadlu a chynaliadwyedd busnesau twristiaeth, a chyfleu hyn i arweinwyr polisi yn unol â hynny | Ymdrinnir yn gyson â'r materion hyn mewn sesiynau briffio mewnol ar gyfer polisïau. Mae Croeso Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r diwydiant a thimau o bob rhan o Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn. | Cynnal trafodaethau parhaus ynghylch y dreth ar dwristiaeth. | G |

## PARTNERIAETH

| Partneriaeth | Targed 2016 | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau hyd at 2020 (9.3)**<br>Hwyluso'r broses o ddatblygu'r Fforymau Rhanbarthol newydd er mwyn cynyddu rôl y sector preifat yn ei waith, ac atgyfnerthu trefniadau cyfathrebu â'r Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau a'r cymdeithasau twristiaeth lleol – datblygu meini prawf ar gyfer cymorth i gymdeithasau twristiaeth. Yn sgil toriadau'r awdurdodau lleol, sicrhau bod manteision twristiaeth a goblygiadau unrhyw doriadau yn cael eu hamlygu'n gliriach i unigolion sy'n gwneud penderfyniadau allweddol | Gwella'r systemau llywodraethu er mwyn sicrhau llif gwybodaeth rhwng y Fforymau rhanbarthol, y Partneriaethau Rheoli Cyrchfannau a'r cymdeithasau twristiaeth lleol | Erbyn hyn, mae Bwrdd Rheoli Twristiaeth mewnol yn goruchwylio gweithgarwch marchnata a thwristiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r pedwar fforwm rhanbarthol yn ddolen hanfodol rhwng Croeso Cymru a'r sector. Estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Twristiaeth ac i gwrdd yn uniongyrchol â'r Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Mae cadeiryddion neu aelodau'r fforymau yn cynrychioli'r maes twristiaeth ar agendâu rhanbarthol ehangach, a hynny trwy fentrau tebyg i Fwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd-orllewin, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Bargen Ddinesig Abertawe, a fforymau sgiliau rhanbarthol. Yn 2017, daeth arbenigwyr a rhandeiliaid ynghyd ar gyfer ein cynhadledd dwristiaeth gyntaf i archwilio tueddiadau'r diwydiant yn y dyfodol a materion sy'n dod i'r amlwg. | Yr her yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n well ar lefel leol, a hynny rhwng aelodau'r fforwm a'u hardaloedd lleol eu hunain.<br>Rydym hefyd yn cydweithio â swyddogion cyfatebol yn y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru yn manteisio ar unrhyw gytundeb sector ar gyfer twristiaeth gan y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. | G |
| | Adolygu rôl Cymdeithasau Twristiaeth a'r modd y gall Croeso Cymru a rhanddeiliaid eu cefnogi yn y modd mwyaf effeithiol | Yn dilyn adolygiad o'r Cymdeithasau Twristiaeth, ac yng ngoleuni'r rhwystrau o ran adnoddau, penderfynwyd canolbwyntio ar ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth ar-lein. Mae'r wefan wedi cael ei hailwampio. Mae Croeso Cymru hefyd wedi llunio canllaw penodol ar gyfer cymdeithasau lleol. | Byddwn yn parhau i ddosbarthu deunydd a darparu cymorth ar-lein ar gyfer Cymdeithasau Twristiaeth, ynghyd ag annog rhanddeiliaid i ymgysylltu trwy gyrchfannau lleol. | G |

| Partneriaeth | Targed 2016 | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf | Bodlonwyd? |
|---|---|---|---|---|
| | Archwilio strwythur y Partneriaethau Cyrchfannau er mwyn ailffocysu cymorth ariannol, a hynny yn dibynnu ar yr ymrwymiad a'r gallu i gyflawni'r camau gweithredu mewn cynlluniau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol ehangach | Gweler uchod – nodi bod yr holl gyllid bellach yn gysylltiedig â gofyniad ar gyfer Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau. Yn dilyn y cyhoeddiadau ynghylch ad-drefnu Awdurdodau Lleol yn 2017, penderfynwyd ei bod yn rhy gynnar i adolygu'r strwythur Rheoli Cyrchfannau. | Fel y nodwyd uchod, bydd y mater hwn yn ganolog i unrhyw strategaeth newydd | Y |
| | Parhau i ymgynghori â chyrff allweddol y diwydiant er mwyn helpu i lywio strategaethau, polisïau a chyflawni rhaglenni | Mae Croeso Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Chymdeithas Twristiaeth Cymru, Cymdeithas Lletygarwch y Deyrnas Unedig, ac amrywiaeth ehangach o gyrff eraill, a hynny gyfrwng y fforymau rhanbarthol. Mae'r fforymau wedi darparu cyngor ar y gwaith o ddatblygu polisïau, er enghraifft y dreth ar dwristiaeth a'r Fforwm Datblygu Cenedlaethol newydd, yn ogystal â helpu i ddewis categorïau ac enillwyr rhanbarthol ar gyfer Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2018. Mae'r sioeau teithiol blynyddol yn gyfle arall i rannu gwybodaeth a chael adborth. Rhwng 2014 a 2018, dyblodd y gyfradd bresenoldeb, gyda chyfraddau boddhad o 90%. Mae gan newyddlenni diwydiant Croeso Cymru 10,500 o danysgrifwyr, gyda'r cyfraddau agor o gwmpas 30% (ystyrir bod cyfradd sy'n uwch na 25% yn dda). Mae'r newyddlenni a'r bwletinau yn perfformio'n dda, gyda chyfradd clicio o 6% (sy'n uwch na'r gyfradd o 4% a ystyrir yn "dda"). Mae adborth y diwydiant yn nodi bod y gwaith o ymgysylltu â'r diwydiant yn well nag erioed o'r blaen. | Yn ogystal â chynnal y lefel ymgysylltu gyfredol, rydym yn archwilio ffyrdd o sicrhau bod y sector yn cymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth nesaf. | G |

| Partneriaeth | Targed 2016 | Cynnydd hyd at 2018 | Y camau nesaf | Bodlonwyd? |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | Llunio gwell tystiolaeth ar lefel ranbarthol ac ar lefel cyrchfannau, a'i chyfleu mewn modd ehangach i'r diwydiant a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel leol, er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu diogelu a'u dyrannu i adlewyrchu buddiannau, gofynion ac effeithiau'r economi ymwelwyr. | Mae Croeso Cymru newydd lunio pedwar llyfryn buddsoddi rhanbarthol, sy'n cynnwys dadansoddiad o ffigurau rhanbarthol<br>Gogledd / Canolbarth / De-orllewin / De-ddwyrain<br>Fel y nodir isod, rydym wedi helpu i bwysleisio gwerth a manteision twristiaeth i awdurdodau lleol. | Bydd strategaeth y Porth Digidol yn gweithio mewn modd mwy effeithiol gyda phartneriaid marchnata cyrchfannau lleol/rhanbarthol, a hynny mewn perthynas â chynnwys. Mae hefyd angen i ni fynd i'r afael â'r her o ddarparu data mewn modd amserol. | G |
| | Ymgysylltu â'r cyrff Economaidd Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod twristiaeth yn cael ei hystyried a'i blaenoriaethu mewn cynlluniau, a'u bod yn cael eu hintegreiddio â chynlluniau rheoli cyrchfannau lleol a blaenoriaethau twristiaeth strategol | Rydym wedi cynnal cyflwyniadau ar gyfer pob fforwm economaidd, ynghyd â sicrhau bod twristiaeth yn cael ei chynrychioli ym Margen Twf y Gogledd-orllewin. Rydym hefyd wedi gweithio gyda rhanbarthau Dinesig i lunio strategaeth fuddsoddi ar gyfer rhanbarthau. | Mae timau Croeso Cymru yn parhau i weithio gyda'r Bargeinion Twf wrth iddynt ddod i'r amlwg, a hynny er mwyn ymgorffori gofynion twristiaeth. Parhau i wella'r modd yr ydym yn darparu gwybodaeth berthnasol a phrydlon i'r sector. | G |
| | Ymgysylltu'n well ag unigolion sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar lefel yr Awdurdod Lleol | Mae timau Croeso Cymru wedi ymgysylltu'n gyson â Chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol, Prif Swyddogion Gweithredol ac Arweinwyr mewn perthynas â materion twristiaeth. Mae gwaith ymgysylltu rhanbarthol, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd craffu, wedi cyfrannu at awdurdod Castell-nedd Port Talbot yn adfer ei swyddogaeth dwristiaeth. | Rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, a byddwn yn ystyried dull o ymgysylltu sy'n fwy strwythuredig, a hynny wrth i ni adolygu'r strategaeth. | G |

WG37046 / © Hawlfraint y Goron 2020